**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Ionawr 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs. E.M. Chard, Ms. J. Hughes, A. R. James, Ms J. McAlpine, S.H. Ratcliffe, Miss S.L. Roberts, T. Thomas a'r Parchedig S. Walker

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Hefyd yn bresennol: y Cynghorydd B. Blakeley

## 43. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr B. F. Moylan (yn sâl), A.J. Rutherford (yn sâl) a Miss R. Siddall (yn sâl).

## 44. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

**Nodyn 1:** Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Dywedodd/Ail-ddywedodd yr Aelodau canlynol sydd hefyd yn gwasanaethu ar Gyngor Sir Ddinbych eu bod, wrth gymryd penderfyniadau ar y ceisiadau, yn gwneud hynny ar sail yr wybodaeth a oedd ger eu bron nawr ac os oedd angen ystyried y ceisiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych, y byddant yn edrych ar y ceisiadau o'r newydd yn seiliedig ar yr wybodaeth a fydd ar gael bryd hynny, ac oherwydd hynny efallai y byddant yn dod i benderfyniad gwahanol arnynt.

Y Cynghorydd A.R. James
Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen James

**Nodyn 3:** Hysbysodd y Cynghorydd Mrs. E. Chard y cyfarfod o fuddiant personol a rhagfarnus yng nghais rhif 45/2016/1211 oherwydd ei chyfeillgarwch personol gyda'r ymgeisydd a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio ar y mater.

| | |
|---|---|
| **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| 44.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Marine Caravan Camp, Ffordd Cefndy, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Cefndy |

| | |
|---|---|
| | **Rhif y CAIS:** 45/2016/1038<br><br>Adeiladu Adeilad Swyddfa Werthu.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Wyn Williams, Marine Caravan Camp.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 44.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Marine Caravan Camp, Ffordd Cefndy, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2016/1039<br><br>Adeiladu adeilad cynnal a chadw.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Wyn Williams, Marine Caravan Park<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 44.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 34 Weaver Avenue, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2016/1211<br><br>Adeiladu estyniad llawr cyntaf yn y cefn a dormer ar ochr tŷ annedd.<br><br>Yr ymgeiswyr yw Mr. a Mrs. Tom Heywood o Glan Llyn, Ffordd Dewi, Rhuddlan.<br><br>**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 44.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 1 Knowles Avenue, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Brynhedydd<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2016/1206<br><br>Newidiadau ac estyniad i dŷ annedd ac adeiladu modurdy ar wahân.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Mike Overthrow, 106 Towyn Way West, Tywyn.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 44.5 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 33 Doren Avenue, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2016/1203 |

| | |
|---|---|
| | Dymchwel ystafell haul bresennol ac adeiladu estyniad un llawr yn y cefn.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Lyndon Sparrow o'r un cyfeiriad.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 44.6 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 43-53 Queen Street, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**Rhif y CAIS:** 45/2016/1208<br><br>Newidiadau i hwyluso ail-ddatblygu 2 uned A3 llawr cyntaf ac 8 fflat, a gwaith cysylltiedig.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Mark Dixon o Gyngor Sir Ddinbych.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |

## 45. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...